## ATODLEN 2

Rheoliad 40

Y cofnodion sydd i'w cadw mewn cysylltiad â gwasanaethau

### Y cofnodion sydd i'w cadw

**1.** Mewn cysylltiad â phob gofalwr lleoli oedolion, cofnodion o—

(a) enw llawn;

(b) rhyw;

(c) dyddiad geni;

(d) cyfeiriad;

(e) cymwysterau sy'n berthnasol i waith sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf a phrofiad o wneud gwaith o'r fath;

(f) copi o'r cytundeb gofalwr;

(g) copi o unrhyw gytundebau lleoli unigolion perthnasol;

(h) cofnod o'r gwaith monitro a wneir mewn cysylltiad â'r lleoliad.

**2.** Mewn cysylltiad â phob unigolyn, cofnodion o—

(a) pob asesiad perthnasol;

(b) cynlluniau gofal a chymorth;

(c) cynlluniau personol;

(d) adolygiadau o gynlluniau personol.

**3.** Cofnod o unrhyw ffioedd gan y darparwr gwasanaeth i unigolion am ddarparu gofal a chymorth ac unrhyw wasanaethau ychwanegol.

**4.** Pan fo'n gymwys, cofnod o'r holl feddyginiaethau a gedwir gan y gofalwr lleoli oedolion ar gyfer pob unigolyn a'r dyddiad a'r amser y'u rhoddwyd i'r unigolyn.

**5.** Cofnod o'r holl arian neu bethau gwerthfawr eraill a adneuwyd gan yr unigolyn gyda'r gofalwr lleoli oedolion i'w cadw'n ddiogel neu a gafwyd ar ran yr unigolyn, a hwnnw'n gofnod y mae rhaid iddo gynnwys cofnod o—

(a) y dyddiad yr adneuwyd neu y cafwyd yr arian neu'r pethau gwerthfawr;

(b) y dyddiad y cafodd unrhyw arian neu bethau gwerthfawr—

(i) eu dychwelyd at yr unigolyn, neu

(ii) eu defnyddio, ar gais yr unigolyn, ar ei ran;

(c) pan fo'n gymwys, y diben y defnyddiwyd yr arian neu'r pethau gwerthfawr ato;

(d) y gydnabyddiaeth ysgrifenedig bod yr arian neu'r pethau gwerthfawr wedi eu dychwelyd.

**6.** Cofnod o'r digwyddiadau a ganlyn sy'n digwydd yng nghartref y gofalwr lleoli oedolion—

(a) unrhyw ddamwain neu anaf difrifol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar lesiant unigolyn;

(b) unrhyw achos o ddwyn neu fwrgleriaeth;

(c) unrhyw atgyfeiriad diogelu a wneir mewn cysylltiad ag unigolyn;

(d) dyddiad ac amgylchiadau unrhyw fesurau rheoli, atal neu ddisgyblu a ddefnyddir ar unigolyn.

**7.** Cofnod o'r holl gwynion a wneir gan unigolion neu eu cynrychiolwyr neu gan bersonau sy'n gweithio yn y gwasanaeth neu gan ofalwyr lleoli oedolion ynghylch gweithrediad y gwasanaeth, a'r camau gweithredu a gymerir gan y darparwr gwasanaeth mewn cysylltiad ag unrhyw gŵyn o'r fath.

**8.** Cofnod o'r holl bersonau sy'n gweithio yn y gwasanaeth, a hwnnw'n gofnod y mae rhaid iddo gynnwys y materion a ganlyn—

(a) enw llawn, cyfeiriad, dyddiad geni, cymwysterau a phrofiad y person;

(b) copi o dystysgrif geni a phasbort (os oes ganddo un) y person;

(c) copi o bob geirda a geir mewn cysylltiad â'r person;

(d) y dyddiadau y mae'r person yn dechrau cael ei gyflogi felly ac yn peidio â chael ei gyflogi felly;

(e) y swydd sydd gan y person yn y gwasanaeth, y gwaith y mae'n ei wneud a nifer yr oriau y mae wedi ei gyflogi bob wythnos;

(f) cofnodion o gamau disgyblu ac unrhyw gofnodion eraill mewn perthynas â chyflogaeth y person;

(g) cofnod o ddyddiad tystysgrif GDG ac a gymerwyd unrhyw gamau gweithredu o ganlyniad i gynnwys y dystysgrif.

**9.** Copi o restr ddyletswyddau'r personau sy'n gweithio yn y gwasanaeth, a chofnod o ran a oedd y rhestr yn gweithio yn ôl yr hyn a fwriadwyd mewn gwirionedd.